# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Preswyl Brwynog**

**Ffordd Madyn**
**Amlwch**
**LL68 9DH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

31/01/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Preswyl Brwynog

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Ynys Môn |
| Lleoedd cofrestredig | 29 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 11 Medi 2019 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb


Mae'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn hapus. Mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r bobl y maent yn byw gyda nhw a'r gweithwyr gofal sy'n eu cefnogi.  Caiff pob person ei barchu fel unigolyn sydd â'i brofiadau bywyd unigryw ei hun a'i anghenion gofal penodol ei hun. Caiff y bobl eu cynnwys mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â'r ffordd yr hoffent gael eu cefnogi a chaiff eu safbwyntiau eu cofnodi yn eu cynlluniau personol. Darperir cymorth er mwyn helpu'r bobl i gadw mor iach â phosibl.

Mae'r amgylchedd yn addas ac yn cefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau. Mae sawl ardal gymunedol wahanol ar gael, lle y gall y bobl ddewis treulio eu hamser yng nghwmni eraill. Mae ystafelloedd y bobl eu hunain yn gyfforddus ac yn gartrefol. Darperir ardal awyr agored hygyrch ac wedi'i dodrefnu. Hyrwyddir iechyd a diogelwch cyffredinol yn y gwasanaeth; fodd bynnag, mae angen rhoi sylw i'r brif fynedfa er mwyn sicrhau ei bod yn cadw'r bobl yn ddiogel.

Mae trefniadau arwain a rheoli da ar waith. Mae'r lefelau staffio yn briodol ac mae'r gweithwyr gofal yn mwynhau eu rolau. Darperir hyfforddiant a chymorth perthnasol. Cynhelir gwiriadau sicrhau ansawdd rheolaidd er mwyn gwneud yn siŵr bod y gwasanaeth yn rhedeg fel y dylai a monitro boddhad parhaus y bobl â'r gwasanaethh a ddarperir.

## Llesiant

Dywedodd y bobl eu bod yn hapus yn byw yn y cartref. Roedd yr adborth a gawsom gan y bobl yn cynnwys *“Dim byd yn ormod o drafferth iddyn nhw – nothing is too much trouble for them”; “Dwi ond yn gorfod hanner gofyn ac maen nhw wedi'i wneud – I only need to half ask for something and they’ve done it”.* Gwelsom y gweithwyr gofal yn siarad â'r bobl mewn modd parchus a charedig. Dywedodd y bobl wrthym fod ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r gweithwyr gofal a'r bobl y maent yn byw gyda nhw; *“Wedi setlo yma – I’ve settled here”; “Edrych ar ôl ni yn dda – Look after us well”.*

Caiff hawliau'r bobl eu hamddiffyn. Darperir cyfleoedd er mwyn sicrhau bod y bobl yn gallu cymryd rheolaeth dros eu bywydau bob dydd. Mae dewisiadau ar gael o ran arferion dyddiol y bobl, fel yr amser y maent yn dewis codi a'r amser y maent yn dymuno mynd i gysgu. Mae'r bobl yn penderfynu sut i dreulio eu diwrnod ac a ydynt am gymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau. Mae dewisiadau ar gael o ran prydau bwyd, a ble y mae'r bobl am gael eu prydau. Gwneir ymdrechion i gynnwys y bobl wrth lunio eu cynlluniau personol a'u hadolygu. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn dod i adnabod *“the little things that are important to each individual person”* er mwyn darparu'r gofal gorau posibl. Cynhelir trafodaethau â'r bobl er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth y maent yn ei gael. Cadarnhaodd y bobl eu bod yn teimlo y gallant godi unrhyw faterion a all fod ganddynt a'u bod yn teimlo y gwrandewir arnynt.

Mae'r cymorth a ddarperir yn hybu llesiant corfforol ac emosiynol y bobl. Mae cyflyrau iechyd y bobl yn hysbys cyn iddynt symud i'r cartref, ac maent yn cael eu cofnodi yng nghynlluniau personol y bobl. Gwneir trefniadau i'r bobl weld gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol pan fydd eu hanghenion iechyd neu ofal yn newid, a rhoddir y wybodaeth ddiweddar i'w teuluoedd. Cadarnhaodd gweithiwr iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref fod y gweithwyr gofal yn rhagweithiol wrth roi gwybod iddo am faterion priodol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd er mwyn monitro ansawdd y gofal a ddarperir a sicrhau bod anghenion y bobl yn cael eu diwallu.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth. Mae mesurau ar waith ar bob lefel o'r gwasanaeth i sicrhau y rhoddir gwybod i'r awdurdod lleol am unrhyw bryderon diogelu. Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant ar ddiogelu ac maent yn hyderus ynghylch eu cyfrifoldebau mewn perthynas ag amddiffyn pobl rhag niwed.

Mae'r amgylchedd yn lân, yn gynnes ac mewn cyflwr da. Mae ystafelloedd y bobl yn gyfforddus ac mae iddynt ymdeimlad cartrefol. Caiff gwiriadau iechyd a diogelwch eu cwblhau'n rheolaidd. Fodd bynnag, mae angen gwella'r trefniadau diogelwch wrth y brif fynedfa.

## Gofal a Chymorth

Gwneir ymdrechion i ddeall anghenion gofal a chymorth y bobl cyn iddynt symud i'r gwasanaeth. Cesglir asesiadau a gaiff eu cwblhau gan weithwyr proffesiynol er mwyn sicrhau y gall y gwasanaeth ddiwallu anghenion pob person. Mae'r rheolwr a'r uwch-aelodau o'r staff hefyd yn cwrdd â'r bobl a'u perthnasau i drafod eu hanghenion ac esbonio'r hyn y gall y gwasanaeth ei ddarparu. Mae hyn yn golygu y gall y rheolwr fod yn siŵr y gall y gwasanaeth gefnogi'r bobl i ddiwallu eu hanghenion unigol.

Caiff y bobl eu cynnwys mewn trafodaethau ynglŷn â sut yr hoffent gael eu cefnogi. Gwelsom fod y cynlluniau personol yn cofnodi safbwyntiau'r bobl am y cymorth sydd ei angen arnynt gan weithwyr gofal i ddiwallu eu hanghenion a chyflawni eu canlyniadau personol. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gofal y maent yn ei gael, a gwnaethant gadarnhau bod y staff yn parchu eu dewisiadau unigol bob amser. Caiff y cynlluniau personol eu hadolygu'n rheolaidd â'r bobl a'u diweddaru yn dilyn unrhyw newidiadau. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn gallu cael gafael ar wybodaeth ysgrifenedig gyfredol am anghenion gofal a chymorth y bobl bob amser. Mae hyn yn hwyluso cysondeb o ran y cymorth y mae'r bobl yn ei gael. Caiff risgiau hysbys i ddiogelwch y bobl eu cofnodi, ynghyd â'r mesurau sydd ar waith i reoli'r risg o niwed a'i lleihau.

Darperir cymorth er mwyn galluogi'r bobl i fod yn iach. Cysylltir â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn briodol am gyngor pan fydd unrhyw newidiadau'n digwydd. Caiff y cyngor a roddir ei gofnodi a'i ddilyn er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael y cymorth cywir. Dywedodd gweithiwr iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref wrthym fod y gweithwyr gofal yn rhagweithiol wrth roi gwybod iddynt am faterion a'u bod yn awyddus i gefnogi'r bobl yn y ffordd orau posibl. Mae'r bwydlenni'n dangos bod y bobl yn cael cynnig deiet amrywiol sy'n eu helpu i gadw'n iach. Caiff pwysau'r bobl ei fonitro'n rheolaidd, a darperir deietau arbennig pan fo angen.

Mae trefniadau ar waith i amddiffyn y bobl rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Mae polisi diogelu ar waith ac mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant perthnasol. Mae'r gweithwyr gofal yn hyderus ynghylch y camau y dylent eu cymryd os bydd ganddynt unrhyw bryderon am lesiant y bobl. Mae'r rheolwr yn rhoi gwybod yn briodol i'r awdurdod lleol am faterion diogelu a chaiff y canlyniadau eu cofnodi. Mae systemau cadarn ar waith i sicrhau y gall y bobl gadw eu harian personol yn ddiogel yn y cartref.

Caiff iaith ei chydnabod fel rhan bwysig o hunaniaeth y bobl. Mae dewis iaith pob person yn hysbys cyn iddo symud i'r gwasanaeth a chaiff y wybodaeth hon ei chofnodi yn y dogfennau gofal. Mae pob un o'r gweithwyr gofal, y tîm rheoli a'r Unigolyn Cyfrifol yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn golygu y gellir darparu cymorth yn newis iaith y bobl, boed hynny yn Gymraeg neu yn Saesneg.

## Yr Amgylchedd

Darperir cymorth mewn amgylchedd cynnes, glân a chartrefol. Ceir tair lolfa gymunedol fawr lle y gall y bobl ddewis treulio amser gydag eraill. Mae lolfa dawelach hefyd ar gael i'r bobl y mae'n well ganddynt dreulio amser mewn grŵp llai. Mae ystafell fwyta ar gael lle y gall y bobl ddewis gael eu prydau bwyd yng nghwmni eraill os byddant yn dymuno gwneud hynny. Ceir heulfan sydd â mynediad gwastad i ardal batio yn yr ardd. Mae ardaloedd eistedd ar gael yn yr ardd er mwyn i'r bobl eistedd yn yr awyr agored pan fydd y tywydd yn caniatáu. Mae'r ardaloedd cymunedol wedi'u haddurno â darnau o waith celf wedi'u fframio o'r ardal leol sy'n croesawu'r gymuned leol i'r cartref.

Mae ystafelloedd y bobl wedi'u personoli sy'n galluogi'r bobl i deimlo'n gyfforddus ac yn gartrefol. Gwelsom fod gan y bobl luniau o'u teuluoedd a chofroddion sy'n bwysig iddynt yn eu hystafelloedd. Mae hyn yn creu ymdeimlad cartrefol yr ardaloedd personol y bobl.

Mae'r cartref yn lân ac mewn cyflwr da ar y cyfan. Mae gwaith ailaddurno parhaus yn mynd rhagddo a chaiff gwaith cynnal a chadw ei gwblhau pan fo angen. Mae hyn yn sicrhau bod y cartref yn teimlo'n ffres ac yn raenus yr olwg.

Ni chaiff y risgiau i iechyd a diogelwch yn y cartref eu rheoli'n briodol bob amser-. Yn ystod yr arolygiad diwethaf, gwnaethom argymell y dylai'r darparwr adolygu'r trefniadau diogelwch sydd wrth waith er mwyn sicrhau bod y cartref gofal yn ddiogel rhag mynediad heb awdurdod. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod arwyddion wrth y drws ffrynt yn gofyn i ymwelwyr ganu'r gloch cyn mynd i mewn i'r cartref. Fodd bynnag, nid yw'r drws hwn yn cael ei gloi, sy'n golygu y gall ymwelwyr gerdded i mewn i'r cartref heb fod angen caniatâd y staff arnynt. Gwnaethom drafod hyn â'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol, a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn ystyried opsiynau diogelwch ar gyfer y fynedfa, nad oeddent yn effeithio ar ryddid y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Nid yw'r drefn sydd ar waith ar hyn o bryd yn diogelu'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn ddigonol. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau strwythuredig ar waith i sicrhau bod gweithwyr gofal yn cael eu recriwtio'n ddiogel. Mae'r cofnodion yn dangos bod gwiriadau addasrwydd yn cael eu cwblhau cyn i staff newydd ddechrau gweithio yn y gwasanaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn cwblhau shifftiau cysgodi fel rhan o'u cyfnod sefydlu ac yn cael hyfforddiant perthnasol. Mae'r cofnodion yn dangos nad yw rhai o'r gweithwyr gofal wedi cwblhau cyrsiau diweddaru; cawsom sicrwydd gan y rheolwr fod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater hwn. Mae'r lefelau staffio yn ddigonol a dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn gweithio'n dda fel tîm. Maent yn teimlo bod y rheolwr yn eu cefnogi. Mae'r rheolwr yn darparu arweinyddiaeth gref ac yn addasu'n dda pan fydd nifer o ddigwyddiadau annisgwyl yn digwydd ar yr un pryd. Gwelsom y rheolwr yn blaenoriaethu nifer o ofynion yn hyderus mewn modd effeithiol, er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Gall y bobl gael gafael ar wybodaeth am y gwasanaeth a ddarperir. Mae datganiad o ddiben y darparwr yn disgrifio'r gofal a'r cymorth y gellir eu darparu a sut y gwneir hyn. Mae'r canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn rhoi rhagor o wybodaeth berthnasol bellach am y gwasanaeth y gall y bobl ddisgwyl ei gael. Mae'r wybodaeth hon yn helpu'r bobl i benderfynu ar sail gwybodaeth a yw'r gwasanaeth yn addas ar eu cyfer. Mae'r canllaw'n cynnwys gwybodaeth ynglŷn â sut i wneud cwyn, a dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo y gallant godi unrhyw faterion sydd eu hangen gyda'r uwch-aelodau o'r staff a'r rheolwr.

Mae trefniadau ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn casglu adborth gan y bobl sy'n byw yn y cartref gofal am y gwasanaeth y maent yn ei gael. Mae hefyd yn siarad â pherthnasau'r bobl a'r gweithwyr gofal fel rhan o'i ymweliadau. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cofnodi'r adborth a'r camau a gymerwyd mewn ymateb i'r wybodaeth a gasglwyd. Mae hyn yn dangos bod yr Unigolyn Cyfrifol yn rhagweithiol wrth lywio datblygiad y gwasanaeth. Cynhelir adolygiadau ffurfiol o ansawdd y gofal bob chwe mis, a chaiff y bobl a'u cynrychiolwyr eu cynnwys yn y broses. Mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar fesur i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn galluogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau ac mae'n myfyrio ar yr hyn y mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda. Mae hefyd yn ystyried pa feysydd o'r gwasanaeth y gellir eu gwella a sut y gellir cyflawni hyn.

Mae darparwr y gwasanaeth yn goruchwylio trefniadau ariannol y gwasanaeth a buddsoddiadau ynddo yn dda er mwyn sicrhau ei fod yn gynaliadwy yn ariannol. Gwelsom fod buddsoddiad parhaus yn cael ei wneud i gynnal a chadw'r adeilad a datblygu'r staff, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir yn diwallu anghenion y bobl.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 44 | Nid yw'r trefniadau diogelu sydd ar waith ym mhrif fynedfa'r cartref yn atal mynediad heb awdurdod yn effeithiol. | Newydd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 20/03/2024